*Yn Siambr y Cyngor, Whitehall*

[a]*Y 9fed Diwrnod o Chwefror 2023*

GAN ARGLWYDDI CYFRIN GYNGOR MWYAF ANRHYDEDDUS EI MAWRHYDI

TRA BOD adran 124A(1), (2) a (4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(a[b]) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "y Ddeddf") yn darparu y bydd yna erthygl llywodraethu ar gyfer pob corfforaeth addysg uwch a sefydlir ar neu ar ôl y 6ed o Fai 1991, fel y rhagnodwyd gan orchymyn y Cyfrin Gyngor, yn darparu ar gyfer cyfansoddiad y gorfforaeth, ac y bydd yr erthygl llywodraethu ddywededig yn cydsynio â gofynion Atodiad 7A y Ddeddf ac a allai wneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir i'w gwneud gan yr Atodiad 7A dywededig a darpariaeth arall o'r fath a allai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol:

A THRA BOD Ysgrifennydd Cartref Cymru wedi sefydlu corfforaeth addysg uwch Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru fel corfforaeth Addysg Uwch gan Orchymyn (Rhif 3) Addysg (Corfforaeth Addysg Uwch) (Cymru) Gorchymyn 1993(b[c]): gan Fwrdd y Llywodraethwyr, trwy benderfyniad ar 17 Mawrth 2008, a chyda chaniatâd y Cyfrin Gyngor ar y 3ydd o Orffennaf 2008 newidiodd enw'r gorfforaeth i "Glyndŵr University"/ "Prifysgol Glyndŵr" ymhellach gwnaeth Bwrdd y Llywodraethwyr, trwy benderfyniad ar 7 Hydref 2022, a chyda chaniatâd y Cyfrin Gyngor, newid enw'r gorfforaeth i "Prifysgol Wrecsam / Wrexham University".

YN AWR, GAN HYNNY, mae'r Arglwyddi, trwy ymarfer y grymoedd a roddwyd iddynt gan adran 124A(3)(b) yn falch o, a chan hynny yn gwneud erthygl llywodraethu ar gyfer corfforaeth addysg uwch "Glyndŵr University"/ "Prifysgol Glyndŵr" fel y nodwyd yn yr Atodiad i'r Gorchymyn hwn, a fydd yn dod i rym ar unwaith.

---

*ATODIAD*

**CYFEIRIR AT YR ERTHYGL LLYWODRAETHU YN Y DREFN FLAENOROL**

**1. DEHONGLIAD**

---

[a] Nodi'r dyddiad y cydsyniodd y Cyfrin Gyngor

[b] 1988 c.40, disodlwyd adran 124a gan adran 71 o Ddeddf Addysg uwch a Phellach 1992 (c.13)

[c] Offeryn Statudol 1993/56

1) Yn yr Erthygl hon, bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron a nodir yn y paragraff yma-

mae "y Ddeddf" yn golygu Deddf Diwygio Addysg 1988 a ddiwygir o dro i dro;

mae "y Gorfforaeth" yn golygu corfforaeth addysg uwch Prifysgol Wrecsam/Wrexham University;

mae "Bwrdd y Llywodraethwyr" yn golygu aelodau'r Gorfforaeth;

mae "y Brifysgol" yn golygu "Prifysgol Wrecsam/Wrexham University", y sefydliad a reolir gan y Gorfforaeth;

mae "yr Is-Ganghellor" yn golygu'r person sy'n gweithredu fel Pennaeth a Phrif Weithredwr y Brifysgol;

mae "y Bwrdd Academaidd" yn golygu Bwrdd Academaidd y Brifysgol a gyfansoddir yn unol â'r Erthyglau;

mae "yr Offeryn" yn golygu Offeryn Llywodraethu y Gorfforaeth;

mae "yr Erthyglau" yn golygu'r Erthyglau Llywodraethu a gweithredir y Brifysgol yn unol â'r erthyglau hyn;

mae "y Clerc" yn golygu'r person a benodir i swydd Clerc Bwrdd y Llywodraethwyr o dan yr Erthyglau; ac mae

"yr awdurdod sy'n penodi" yn golygu y Gorfforaeth oni nodir yn wahanol.

2) Mae cyfeiriadau yn yr Offeryn hwn, yng nghyswllt y Bwrdd y Llywodraethwyr, at gategori amrywiol o aelodau yn gyfeiriadau at unrhyw gategori o aelodau mewn cysylltiad â'r hyn y mae'r nifer sy'n gymwys yn unol â pharagraff 3 yn gallu amrywio.

## 2. ENW'R GORFFORAETH

1) Fe allai Bwrdd y Llywodraethwyr, trwy benderfyniad, newid enw'r gorfforaeth, gyda chaniatâd y Cyfrin Gyngor.

## 3. AELODAETH BWRDD Y LLYWODRAETHWYR

1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cynnwys-

a. dim llai na 12 a dim mwy na 24 aelod wedi'u penodi yn unol â'r amodau canlynol; a'r

b. Is-Ganghellor, os nad yw'n dewis peidio â bod yn aelod.

2) O'r aelodau a benodir-

a. bydd hyd at 13 yn aelodau annibynnol;

b. fe all hyd at ddau fod yn athrawon yn y Brifysgol wedi'u henwebu gan y Bwrdd Academaidd a gall hyd at ddau fod yn fyfyrwyr wedi'u henwebu gan fyfyrwyr y Brifysgol; a

c. bydd o leiaf un a dim mwy na naw yn aelodau cyfetholedig wedi'u henwebu gan aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr nad ydynt yn aelodau cyfetholedig.

3) Bydd aelodau annibynnol yn bobl sy'n ymddangos i'r awdurdod sy'n penodi i fod â phrofiad o, ac wedi dangos eu bod yn gymwys mewn materion diwydiannol, masnachol neu gyflogaeth neu'n gweithredu unrhyw broffesiwn.

4) Bydd yr aelod cyfetholedig a geisir gan is-baragraff 3(2)(c) uchod yn berson sydd â phrofiad o ddarparu addysg.

5) Nid yw person (ac eithrio person a benodir yn unol ag is-baragraff 3(2)(b) uchod) sydd yn -

a. gyflogedig yn y Brifysgol (boed fel athro neu beidio);

b. myfyriwr llawn-amser yn y Brifysgol; neu

c. aelod etholedig o unrhyw awdurdod lleol,

yn gymwys i'w benodi fel aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr ac eithrio fel aelod cyfetholedig.

6) At ddibenion y paragraff hwn, bydd person nad yw ar hyn o bryd wedi cofrestru fel myfyriwr yn y Brifysgol yn cael ei drin fel myfyriwr yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd wedi cael caniatâd i fod yn absennol o'r Brifysgol er dibenion astudio neu deithio dramor neu er mwyn gweithredu dyletswyddau unrhyw swydd a ddelir ganddo ef/hi yn undeb myfyrwyr y Brifysgol.

7) Yr awdurdod sy'n penodi fydd yn penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a yw unrhyw un yn gymwys yn unol ag amodau blaenorol y paragraff hwn er mwyn penodi aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr o unrhyw ddisgrifiad neu gategori.

## 4. PENDERFYNU AR NIFEROEDD YR AELODAU

1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn dod i benderfyniad parthed nifer eu haelodau.

2) Bydd penderfyniad o'r fath yn pennu nifer aelodau pob categori amrywiol y bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn eu cynnwys, yn amodol ar y cyfyngiadau sy'n berthnasol o ran y categori hwnnw yn unol â pharagraff 3(2) uchod.

3) Wrth ddod i benderfyniad o'r fath, bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn sicrhau fod o leiaf hanner holl aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr ar y pryd, pan fyddant wedi'u cyfansoddi yn unol â'r penderfyniad, yn aelodau annibynnol.

4) Ni fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei weithredu er mwyn terfynu penodiad unrhyw un sydd yn aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr ar yr adeg y'i gweithredir.

5) Gall penderfyniad o'r fath gael ei amrywio gan benderfyniad dilynol.

## 5. PENODI AELODAU GAN FWRDD Y LLYWODRAETHWYR

1) Yn ddarostyngedig i amodau 124C y Ddeddf, ni ellir penodi aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr cyn i'r penderfyniad cyntaf am yr aelodaeth yn unol â pharagraff 4(1) uchod ddod i rym.

2) Bwrdd y Llywodraethwyr yw'r awdurdod sy'n penodi o ran penodi unrhyw aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr ac eithrio aelod annibynnol.

3) Ble mae penodiad aelod annibynnol ychwanegol o Fwrdd y Llywodraethwyr yn methu cael ei wneud o ganlyniad i benderfyniad yn unol â pharagraff 4 uchod, yr awdurdod sy'n penodi o ran y penodiad-

a. fydd Bwrdd y Llywodraethwyr os yw'r penodiad yn cael ei wneud o fewn cyfnod o dri mis yn cychwyn gyda dyddiad y penderfyniad; neu

b. os na fydd y penodiad yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwnnw, yr awdurdod sy'n penodi fydd aelodau annibynnol Bwrdd y Llywodraethwyr.

4) Ble bydd swydd wag aelod annibynnol Bwrdd y Llywodraethwyr yn codi wrth i unrhyw aelod annibynnol roi'r gorau i ddal swydd wrth i'w gyfnod yn y swydd ddod i ben

a. ni fydd ei olynydd yn cael ei benodi mwy na chwe mis cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben; a'r

b. awdurdod sy'n penodi o ran penodi ei olynydd-

i. fydd Bwrdd y Llywodraethwyr os yw'r penodiad yn cael ei wneud heb fod yn llai na thri mis cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben; neu

ii. os nad yw'r penodiad yn cael ei wneud felly, yr awdurdod sy'n penodi fydd aelodau annibynnol presennol Bwrdd y Llywodraethwyr.

5) Ble bydd swydd wag aelod annibynnol o Fwrdd y Llywodraethwyr oherwydd marwolaeth unrhyw aelod o'r fath neu pe bai unrhyw aelod o'r fath yn rhoi'r gorau i ddal swydd yn unol â'r Offeryn, yr awdurdod sy'n penodi o ran penodi ei olynydd-

a. fydd Bwrdd y Llywodraethwyr os bydd y penodiad yn cael ei wneud o fewn y cyfnod o dri mis sy'n cychwyn gyda'r dyddiad marwolaeth neu'r dyddiad pan fydd y swydd yn dod yn wag (os mai dyna'r achos); neu

b. os nad yw'r penodiad yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwnnw, yr awdurdod sy'n penodi fydd aelodau annibynnol presennol Bwrdd y Llywodraethwyr.

6) Ni phenodir aelod annibynnol o Fwrdd y Llywodraethwyr gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn unol ag is-baragraff 5(3)(a), 5(4)(b)(i) a 5(5)(a) uchod os na fydd y penodiad wedi cael ei gymeradwyo gan aelodau annibynnol presennol Bwrdd y Llywodraethwyr.

7) Os yw nifer aelodau annibynnol Bwrdd y Llywodraethwyr yn disgyn o dan y nifer angenrheidiol yn unol â'r Erthyglau ar gyfer cworwm, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod sy'n penodi o ran penodiad y fath nifer o aelodau annibynnol sy'n ofynnol ar gyfer cworwm.

## 6. DALIADAETH SWYDD AELODAU BWRDD Y LLYWODRAETHWYR

1) Bwrdd y Llywodraethwyr fydd yn pennu cyfnod swydd aelodau ym mhob un o'r categorïau amrywiol a restrir ym mharagraff 3(2) uchod. Bydd aelodau o'r fath yn dal a gadael eu swydd yn unol ag amodau eu penodiad a byddant, wrth roi'r gorau i fod yn aelod wrth gwblhau eu cyfnod yn y swydd, yn gymwys i gael eu hailbenodi.

2) Gall aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc, a bydd y swydd ar hynny yn wag o'r

dyddiad y derbyniwyd yr hysbysiad neu ddyddiad yr ymddiswyddiad a nodir, pa un bynnag fydd yr hwyraf.

3) Os ar unrhyw adeg bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn fodlon fod unrhyw aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr-

   a. wedi bod yn absennol o gyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr am gyfnod o 12 mis heb ganiatâd Bwrdd y Llywodraethwyr; neu'n

   b. methu neu'n anghymwys i gyflawni swyddogaethau aelod,

   fe all Bwrdd y Llywodraethwyr trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod hwnnw/honno, eu diswyddo o'u swydd; ac ar hynny bydd y swydd yn dod yn un wag.

4) Ble mae aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr a benodwyd fel enwebai'r Bwrdd Academaidd neu enwebai sy'n fyfyriwr, neu aelod o staff neu fyfyriwr a benodwyd fel aelod cyfetholedig o Fwrdd y Llywodraethwyr, yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o staff neu fyfyriwr y Brifysgol cyn diwedd ei gyfnod yn y swydd, yn yr achos hynny, bydd ei swydd ar hynny yn dod yn wag.

## 7. SWYDDOGION

1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn penodi o blith eu haelodau Gadeirydd ac unrhyw swyddogion eraill y gallai'r Bwrdd eu pennu.

## 8. PWYLLGORAU

1) Gallai Bwrdd y Llywodraethwyr sefydlu pwyllgorau a chaniatáu i bwyllgorau o'r fath gynnwys rhywun nad ydynt yn aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr.

## 9. LWFANSAU

1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn penderfynu ar unrhyw lwfansau a fydd yn cael eu talu i aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr.

## 10. SÊL Y GORFFORAETH

1) Bydd sêl y Gorfforaeth yn cael ei dilysu gan lofnod Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr neu ryw aelod arall a awdurdodir yn gyffredinol neu'n arbennig gan Fwrdd y Llywodraethwyr i weithredu er y diben hwnnw ynghyd ag un unrhyw aelod arall o Fwrdd y Llywodraethwyr.

2) Bydd Sêl y Gorfforaeth yn cael ei chadw dan drefniadau diogel gan y Clerc.

## 11. COPÏAU'R OFFERYN LLYWODRAETHU

1) Bydd copïau o'r Offeryn Llywodraethu yn cael eu rhoi i bob aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar gyfer HMSO
Dd 8284048 PS016 (229) 4/93 523 3840 4954(TT)

**“PRIFYSGOL WRECSAM/WREXHAM UNIVERSITY”**

**- ERTHYGLAU LLYWODRAETHU**

Gan ddefnyddio’r grymoedd a roddwyd iddi gan adran 125 Deddf Diwygio Addysg 1988, mae corfforaeth addysg uwch “Prifysgol Wrecsam/Wrexham University” yn gwneud yr Erthyglau Llywodraethu canlynol a bydd “Priysgol Wrecsam/Wrexham University” yn gweithredu yn unol â hwy.

## 1. DEHONGLIAD

1) Yn yr Erthyglau hyn, bydd gan y geiriau a’r ymadroddion yr un ystyr a dadogwyd iddynt ym mharagraff 1 yr Offeryn a wnaed gan y Cyfrin Gyngor, 9fed Chwefror 2023 ac

   mae “deiliaid swyddi uwch” yn golygu’r Is-Ganghellor a’r Prif Weithredwr, y Clerc, a deiliaid swyddi uwch eraill y gallai Bwrdd y Llywodraethwyr eu pennu a bydd “deiliad swydd uwch” yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;

   mae “y staff” yn cynnwys staff addysgu a staff eraill y Brifysgol;

   mae “staff lywodraethwyr” yn golygu aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr a benodwyd ar argymhelliad y Bwrdd Academaidd, neu fel enwebeion staff cyfetholedig;

   mae “myfyriwr lywodraethwr” yn golygu aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr a benodwyd fel enwebeion o blith y myfyrwyr neu fel enwebeion cyfetholedig o blith y myfyrwyr; ac mae

   “undeb myfyrwyr” yn golygu unrhyw gymdeithas gyffredinol y myfyrwyr a ffurfiwyd i hybu dibenion addysgol y Brifysgol a buddiannau myfyrwyr fel myfyrwyr.

2) Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli yr Erthyglau hyn fel y mae’n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

## 2. YMDDYGIAD Y BRIFYSGOL

1) Bydd y Brifysgol yn cael ei chynnal yn unol ag amodau’r Deddfau Addysg fel y diffiniwyd yn Neddf Addysg 1996, a Deddfau Addysg dilynol, unrhyw reoliadau, gorchmynion neu gyfarwyddiadau perthnasol a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cartref, Gweinidogion Cymreig neu’r Cyfrin Gyngor ac, yn amodol ar hynny, yn unol ag amodau’r Offeryn, yr Erthyglau hyn ac unrhyw reolau neu reoliadau a wnaed o dan yr Erthyglau hyn.

## 3. CYFRIFOLDEBAU BWRDD Y LLYWODRAETHWYR, YR IS-GANGHELLOR A’R BWRDD ACADEMAIDD.

### Bwrdd y Llywodraethwyr

**1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am:**

   i. benderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth y Brifysgol ac am oruchwylio ei gweithgareddau;

   ii. y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, hydaledd y Brifysgol a’r Gorfforaeth ac am ddiogelu eu hasedau;

   iii. cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant;

   iv. penodi, graddio, gwahardd, diswyddo a phenderfynu ar gyflog ac amodau gwasanaeth deiliaid uwch swyddi;

   v. gwerthuso’r Is-Ganghellor a’r Clerc; a

   vi. gosod fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau staff eraill.

**Yr Is-Ganghellor**

2) Yn amodol ar gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr, yr Is-Ganghellor fydd Prif Weithredwr y Brifysgol, a fydd yn gyfrifol am:

   i. wneud cynigion i Fwrdd y Llywodraethwyr am gymeriad addysgol a chenhadaeth y Brifysgol, ac am roi penderfyniadau Bwrdd y Llywodraethwyr ar waith;

   ii. trefnu, cyfeirio a rheoli'r Brifysgol ac arwain y staff;

   iii. penodi, aseinio, graddio, gwerthuso, gwahardd, diswyddo a phenderfynu – o fewn y fframwaith a osodwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr – ar gyflog ac amodau gwasanaeth staff ac eithrio deiliaid y swyddi uwch;

   iv. penderfynu, ar ôl ymgynghori gyda'r Bwrdd Academaidd, ar weithgareddau academaidd y Brifysgol, ac am benderfynu ar ei weithgareddau eraill;

   v. paratoi amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant, i'w hystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr, ac am reoli'r gyllideb a'r adnoddau, o fewn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr; ac am

   vi. gynnal disgyblaeth myfyrwyr ac, o fewn y rheolau a'r rheoliadau y darparwyd ar eu cyfer o fewn yr Erthyglau hyn, am wahardd neu ddiarddel myfyrwyr am resymau disgyblaethol ac am roi penderfyniadau ar waith i ddiarddel myfyrwyr am resymau academaidd.

**Y Bwrdd Academaidd**

3) Yn amodol ar amodau yr Erthyglau hyn i gyfrifoldeb cyffredinol Bwrdd y Llywodraethwyr, ac i gyfrifoldebau'r Is-Ganghellor, bydd y Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am:

   i. faterion cyffredinol yn ymwneud ag ymchwil, ysgoloriaeth, addysgu a chyrsiau yn y Brifysgol, gan gynnwys meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr; penodi a chael gwared ar arholwyr mewnol ac allanol; polisïau a gweithdrefnau ar gyfer asesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr; cynnwys y cwricwlwm; safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau; y gweithdrefnau ar gyfer gwobrwyo teitlau academaidd anrhydeddus cymwysterau; a'r gweithdrefnau ar gyfer diarddel myfyrwyr am resymau academaidd. Bydd cyfrifoldebau o'r fath yn amodol ar ofynion y cyrff dilysu ac achredu;

   ii. ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol ac adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi ac am gynghori'r Is-Ganghellor a Bwrdd y Llywodraethwyr ar hynny; a

   iii. chynghori ynghylch materion eraill y gallai Bwrdd y Llywodraethwyr neu'r Is-Ganghellor eu cyfeirio i'r Bwrdd Academaidd.

4) Fe allai'r Bwrdd Academaidd sefydlu'r pwyllgorau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau, ar yr amod fod sefydliad pob un yn cael ei gymeradwyo yn gyntaf gan yr Is-Ganghellor a Bwrdd y Llywodraethwyr. Bydd nifer o aelodau unrhyw bwyllgor o'r fath a'r telerau y maent yn dal a gadael eu swydd yn cael eu penderfynu gan y Bwrdd Academaidd.

**4. CYFANSODDIAD Y BWRDD ACADEMAIDD**

1) Bydd Bwrdd Academaidd o ddim mwy na 30 o aelodau, yn cynnwys yr Is-Ganghellor (a fydd yn Gadeirydd) ac aelodau eraill o'r staff a'r myfyrwyr a allai o dro i dro gael eu cymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Fe allai'r Is-Ganghellor enwebu Is-Gadeirydd o blith aelodau'r Bwrdd Academaidd i gadeirio yn ei le neu ei lle. Bydd cyfnod penodiad yr aelodau a'r trefniadau dethol neu ethol yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Llywodraethwyr.

2) At ei gilydd, dylai'r categorïau canlynol gynnwys o leiaf hanner cyfanswm aelodau'r Bwrdd:-

   a. Profost Academaidd (neu gyfatebol)
   b. Cyfarwyddwyr Academaidd (neu swyddi cyfatebol)

c. Penaethiaid Pynciau Academaidd

3) Bydd yr aelodau sy'n weddill yn cynnwys:-

a. Dim llai na phedwar aelod o staff addysgu (ac eithrio Penaethiaid Pynciau)
b. Dim llai na dau Bennaeth Uned Ymchwil
c. Dim llai nag un aelod o staff nad yw'n addysgu
d. Dim llai nag un myfyriwr

4) Fe allai'r aelodau gynnwys aelodau cyfetholedig.

## 5. DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU A PHWYLLGORAU

1) Yn amodol ar amodau canlynol yr Erthygl hon, fe allai Bwrdd y Llywodraethwyr sefydlu pwyllgorau ar gyfer unrhyw ddiben neu swyddogaeth, ac eithrio'r rheiny a aseiniwyd yn rhywle arall yn yr Erthyglau hyn i'r Is-Ganghellor neu i'r Bwrdd Academaidd, ac fe allai ddirprwyo grymoedd i Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr neu i'r Is-Ganghellor.

2) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn sefydlu pwyllgor neu bwyllgorau i benderfynu neu gynghori ar faterion o'r fath yn ymwneud â pholisi cyflogaeth neu gyllid y gallai Bwrdd y Llywodraethwyr eu dirprwyo iddynt. Bydd aelodau'r pwyllgor neu'r pwyllgorau yn cael eu dethol o Fwrdd y Llywodraethwyr ac eithrio staff neu lywodraethwyr sy'n fyfyrwyr.

3) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn sefydlu Pwyllgor Archwilio.

4) Ni fydd Bwrdd y Llywodraethwyr, fodd bynnag, yn dirprwyo'r canlynol:

i. penderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth y Brifysgol;

ii. cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol incwm a gwariant;

iii. sicrhau hydaledd y Brifysgol a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;

iv. penodi neu ddiswyddo'r Is-Ganghellor; ac

v. amrywio neu ddiddymu'r Erthyglau hyn.

## 6. PENODI CLERC I FWRDD Y LLYWODRAETHWYR

1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn penodi Clerc i weithredu fel ysgrifennydd i Fwrdd y Llywodraethwyr.

## 7. GWEITHDREFNAU AR GYFER CYFARFODYDD

1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor ac yn cynnig cyfarfodydd eraill yn ôl y galw.

2) Bydd pob cyfarfod yn cael eu galw gan y Clerc a fydd yn anfon hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarfod i'r llywodraethwyr ynghyd â chopi o'r agenda, saith diwrnod llawn cyn y cyfarfod.

Gellir galw cyfarfod arbennig o Fwrdd y Llywodraethwyr unrhyw adeg gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr neu ar gais ysgrifenedig pum llywodraethwr. Pan fo'r Cadeirydd yn nodi fod yna faterion sydd angen eu hystyried ar frys, bydd yn ddigonol os yw'r hysbysiad ysgrifenedig sy'n galw'r cyfarfod a'r agenda yn cael eu cyflwyno o fewn cyfnod o'r fath, llai na saith diwrnod, a nodir ganddo ef neu hi.

**8. CWORWM**

1) Bydd cyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud cworwm os oes lleiafswm o chwe aelod yn bresennol â phedwar ohonynt yn aelodau annibynnol. Os yw cyfarfod yn gworwm, ond â llai na hanner yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau annibynnol, bydd mwyafrif o'r aelodau annibynnol sy'n bresennol yn gallu gofyn i benderfyniad gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf. Ni fydd penderfyniad yn cael ei ohirio fwy nag unwaith o dan yr amod yma.

2) Os nad yw'r nifer o Lywodraethwyr sydd wedi ymgynnull ar gyfer cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud cworwm, ni fydd y cyfarfod yn cael ei gynnal. Os, yn ystod cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr, y bydd y nifer o aelodau sy'n bresennol yn rhoi'r gorau i fod yn gworwm, bydd y cyfarfod yn cael ei derfynu ar unwaith.

3) Os, oherwydd diffyg cworwm, na ellir cynnal cyfarfod, neu ni ellir cario ymlaen, bydd y Cadeirydd yn galw am gyfarfod arbennig cyn gynted ag sy'n gyfleus, fel y gwêl ef neu hi yn addas.

**9. PENODI AELODAU ANNIBYNNOL**

1) Pan mai'r Gorfforaeth yw'r awdurdod sy'n penodi, mae'n rhaid i fwyafrif o aelodau annibynnol presennol gytuno ar benodiad aelod annibynnol.

2) Ble mae paragraff 5 o'r Erthygl yn amodi mai aelodau annibynnol yw'r awdurdod sy'n penodi, hwy fydd yn ffurfio'r Pwyllgor. Cworwm y pwyllgor hwnnw fydd chwech.

3) Bydd cyfarfodydd o'r pwyllgor a sefydlwyd o dan erthyglau 9(2) yn cael eu galw gan y Clerc yn unol â'r trefniadau a wnaed o dan 7(2).

4) Ble mai'r Gorfforaeth yw'r awdurdod sy'n penodi, bydd pob cwestiwn yn cael ei benderfynu gan fwyafrif o bleidleisiau'r llywodraethwyr sy'n bresennol yn amodol ar amodau erthyglau 9(1) a 10.

5) Ble mai aelodau annibynnol yw'r awdurdod annibynnol, bydd pob cwestiwn yn cael ei benderfynu gan fwyafrif o bleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol yn amodol ar amodau erthyglau 9(2) a 10.

6) Ble bydd y pleidleisiau wedi'u rhannu'n gyfartal, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn cael yr ail bleidlais neu'r bleidlais fwrw.

**10. *DIDDYMWYD YN 2006***

**11. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

1) Yng nghyfarfod cyntaf Bwrdd y Llywodraethwyr, bydd aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, fel y bo'n briodol, a fydd yn gymwys i gael eu hailethol.

2) Ni fydd yr Is-Ganghellor na chynrychiolwyr staff a myfyrwyr ar y Bwrdd y Llywodraethwyr yn gymwys i gael eu hethol fel Cadeirydd neu Is-Gadeirydd.

3) Bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn y swydd am gyfnod y penderfynir arni gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

4) Mewn cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr, bydd Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cadeirio, os yw'n bresennol. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd yr Is-Gadeirydd yn cadeirio.

5) Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, bydd y llywodraethwyr yn penodi un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod.

6) Gall unrhyw rym dyletswydd a aseinir i Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr o ran cynnal cyfarfod gael ei gyflawni gan berson a benodir o dan erthyglau 11(5).

7) Fe allai Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ymddiswyddo o'u swyddi ar unrhyw adeg trwy hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig.

8) Yn y cyfarfod cyntaf ar ôl i gyfnod swydd y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd ddod i ben, neu'n dilyn ymddiswyddiad y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd, bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn penodi Cadeirydd neu Is-Gadeirydd newydd, os mai dyna'r achos, o blith eu nifer.

## 12. HYSBYSIAD A THRAFODION CYFARFODYDD

1) Bydd cyfarfodydd o'r pwyllgorau a sefydlwyd o dan erthygl 5 yn cael eu galw gan y Clerc yn unol â'r trefniadau a wnaed o dan erthygl 7(2).

2) Ni fydd aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr a'i bwyllgorau yn cael eu cyfyngu yn eu siarad a'u pleidleisio gan fandadau a roddir iddynt gan gyrff neu bobl eraill.

3) Ni all unrhyw aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr neu ei bwyllgorau benodi dirprwyon o blith aelodau eraill y Gorfforaeth i bleidleisio drostynt.

4) Ni all unrhyw benderfyniad gan Fwrdd y Llywodraethwyr neu ei bwyllgorau gael ei ddiddymu neu'i amrywio mewn cyfarfod dilynol os nad yw ystyried diddymu neu amrywio yn eitem penodol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

5) Ni fydd trafodion Bwrdd y Llywodraethwyr a'i bwyllgorau yn cael eu dilysu gan unrhyw swydd wag yn eu haelodaeth na chan unrhyw ddiffyg yn etholiad, penodiad neu gymhwyster unrhyw lywodraethwr.

6) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn pennu Gorchmynion Sefydlog yn ymwneud â Chynnal busnes a fydd yn ymgorffori, ble y bo'n berthnasol, yr amodau a wnaed o fewn yr Erthyglau.

## 13. PLEIDLEISIO

1) Bydd pob cwestiwn y dylid penderfynu arno mewn cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr a'i bwyllgorau yn cael ei benderfynu gan fwyafrif o bleidleisiau'r llywodraethwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y mater. Ble bo'r pleidleisiau wedi'u rhannu'n gyfartal, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn cael yr ail bleidlais neu'r bleidlais fwrw.

2) Ym mhob mater bydd pleidleisio trwy ddangos dwylo, os nad yw Bwrdd y Llywodraethwyr yn penderfynu fel arall.

3) Ni fydd enwau'r rheiny sy'n pleidleisio dros, neu yn erbyn, unrhyw gynnig yn cael eu cofnodi fel arfer, ond fe all unrhyw aelod ofyn am gael cofnodi eu hanghytundeb.

4) Ac eithrio fel yr amodwyd gan amodau erthygl 18 parthed apeliadau a chyflwyno achosion ynghylch disgyblu a diswyddo staff, bydd llywodraethwr sydd yn aelod o'r staff yn tynnu'n ôl:

   i. o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr neu ei bwyllgorau ble bydd eu dyrchafiad, cyflog, ymddygiad gwaharddiad, diswyddiad neu ymddeoliad yn cael eu hystyried;

   ii. o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr neu ei bwyllgorau ble bydd penodiad ei olynydd ef neu hi yn cael ei ystyried; ac

   iii. os y gofynnir am hynny gan benderfyniad y llywodraethwyr eraill sy'n bresennol, o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr neu ei bwyllgorau ble bydd penodiad, dyrchafiad, cyflog, ymddygiad, gwaharddiad, ymddiswyddiad neu ymddeoliad unrhyw aelod o staff yn cael eu hystyried.

5) Bydd yr Is-Ganghellor yn tynnu'n ôl o gyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr neu unrhyw un o'i bwyllgorau tra bydd eitem yn ymwneud â'i safle ef neu hi yn cael ei drafod.

6) Ac eithrio fel yr amodir gan y rheolau i'w gwneud o dan erthyglau 20 parthed apeliadau a chyflwyno achosion gan fyfyrwyr mewn achosion disgyblaethol, bydd llywodraethwr sy'n fyfyriwr yn tynnu'n ôl o'r rhan honno o unrhyw gyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr ble bydd ei ymddygiad, gwaharddiad neu ddiarddeliad ef neu hi yn cael eu hystyried.

7) Mewn unrhyw achos ble bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn trafod penodiad, cyflog, amodau gwasanaeth, dyrchafiad, gwaharddiad, diswyddiad neu ymddeoliad aelod neu aelod arfaethedig o'r staff, bydd llywodraethwr sy'n fyfyriwr:

i. yn peidio â chymryd unrhyw ran yn ystyriaeth neu drafodaeth y mater dan sylw nac yn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r mater; a

ii. ble gofynnir iddynt wneud hynny gan benderfyniad y llywodraethwyr eraill yn bresennol, yn tynnu'n ôl o'r cyfarfod.

**14. CYHOEDDI COFNODION A PHAPURAU**

1) Yn amodol ar erthygl 14(2) isod, bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn sicrhau y bydd copi o:

i. agenda ar gyfer pob cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr a'i bwyllgorau;

ii. bras-gofnodion o bob cyfarfod o'r fath, os ydynt wedi cael eu cymeradwyo gan Gadeirydd y cyfarfod;

iii. cofnodion wedi'u llofnodi pob cyfarfod o'r fath; ac

iv. unrhyw adroddiad, dogfen neu bapur arall a ystyrir ym mhob cyfarfod o'r fath.

ym mhob achos cyn gynted ag y bo modd, fod ar gael i bob un o lyfrgelloedd y Brifysgol ar y safle, i unrhyw un sy'n dymuno cael golwg arnynt.

2) Gellir eithrio o unrhyw eitem y gofynnir iddo fod ar gael yn unol ag erthyglau 14(1) unrhyw ddeunydd yn ymwneud â:

i. rhywun wedi'i enwi a gyflogir neu sydd i fod i gael eu cyflogi yn y Brifysgol ;

ii. myfyriwr wedi'i enwi, neu ymgeisydd i gael ei dderbyn, i'r Brifysgol; ac

iii. unrhyw fater, oherwydd ei natur, y mae Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, Bwrdd y Llywodraethwyr a'i bwyllgorau yn fodlon y dylid delio ag ef yn gyfrinachol.

**15. DATGELU BUDDIANNAU**

1) Bydd aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr yn datgeu unrhyw fuddiannau ariannol, teuluol neu bersonol eraill mewn materion sy'n cael eu hystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr neu unrhyw un o'i bwyllgorau. Ni fydd aelodau sy'n datgelu buddiannau o'r fath yn cymryd unrhyw ran yn ystyriaeth y mater(ion), a gellid gofyn iddynt gan Fwrdd y Llywodraethwyr neu bwyllgor i dynnu'n ôl tra bod y mater yn cael ei ystyried.

**16. PENODI A DYRCHAFU STAFF**

1) Bydd pob aelod o staff yn gwasanaethu dan Gytundeb Cyflogaeth gyda'r Gorfforaeth.

2) Pan fydd yna swydd wag neu y disgwylir y bydd yna swydd wag am swydd Is-Ganghellor, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn genedlaethol a bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cytuno ar drefnau ar gyfer y penodiad.

3) Bydd yr Is-Ganghellor yn penderfynu ar drefnau ar gyfer penodi a dyrchafu staff eraill yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Llywodraethwyr.

**17. YMDDYGIAD STAFF**

1) Ar ôl ymgynhgori gyda'r staff, bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud rheolau yn ymwneud ag ymddygiad y staff.

**Rhyddid Academaidd**

2) Wrth wneud rheolau o dan erthygl 17(1), bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn ystyried yr angen i sicrhau fod gan staff academaidd y Brifysgol y rhyddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb derbyniedig, a chynnig syniadau newydd a safbwyntiau dadleuol neu amhoblogaidd, heb roi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu unrhyw freintiau y gallai fod ganddynt yn y Brifysgol.

## 18. GWAHARDD A DISWYDDO STAFF

**Gwahardd**

1) Gall Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, wahardd o ddyletswydd, gyda chyflog, ddeiliad swydd uwch am gamymddwyn neu reswm da neu frys arall. Bydd y Cadeirydd, neu'r Is-Gadeirydd, yn crybwyll gwaharddiad o'r fath yn ysgrifenedig i Fwrdd y Llywodraethwyr o fewn dau ddiwrnod gwaith neu cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl hynny.

2) Gall yr Is-Ganghellor wahardd o ddyletswydd, gyda chyflog, unrhyw aelod o staff, ac eithrio deiliad swydd uwch am gamymddwyn neu am reswm da neu frys arall.

3) Bydd gan aelod o staff sydd wedi'i wahardd o ddyletswydd o dan erthyglau 18(1) neu 18(2) yr hawl i dderbyn gan yr Is-Ganghellor, neu yn achos deiliaid y swyddi uwch gan y Cadeirydd neu Is-Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, hysbysiad ysgrifenedig o'r gwaharddiad, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad i wahardd.

4) Bydd trefnau ar gyfer gwahardd staff o dan erthyglau 18(1) a 18(2) yn cael eu nodi mewn rheolau a wnaed gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar ôl ymgynghori gyda'r staff. Bydd y rheolau yn cynnwys amodau:

   i. fod unrhyw aelod o staff sydd wedi cael ei wahardd am dair wythnos neu fwy yn gallu apelio yn ysgrifennu i Fwrdd y Llywodraethwyr yn erbyn y gwaharddiad, oddi eithr na fydd hawl apelio o'r fath yn bodoli os yw'r person yn cael ei gyfeirio i Bwyllgor Arbennig o dan erthygl 18(5) neu hysbysiad gan yr Is-Ganghellor o dan erthygl 18(12);

   ii. bydd unrhyw apêl o dan 18(4)(i) yn cael ei hystyried cyn gynted ag y bo'n ymarferol; a

   iii. bydd gwaharddiad yn erbyn yr hyn y mae apêl yn cael ei wneud yn dal i fod mewn grym tra'n disgwyl am benderfyniad yr apêl.

**Diswyddo**

**Deiliaid Swyddi Uwch gan gynnwys yr Is-Ganghellor a'r Clerc**

5) Os yw Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, neu yn ei absenoldeb ef neu hi, yr Is-Gadeirydd, neu fwyafrif o aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr, yn ystyried y gallai fod yn briodol i Fwrdd y Llywodraethwyr ddiswyddo'r deiliad o swydd uwch, bydd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd neu Fwrdd y Llywodraethwyr fel y bo'n briodol yn cyfeirio'r mater at Bwyllgor Arbennig, a fydd yn cael ei alw cyn gynted â phosibl i edrych ar y ffeithiau, archwilio'r rhesymau dros ddiswyddo fel arall, a gwneud adroddiad i Fwrdd y Llywodraethwyr.

6) Bydd y person yr ystyrir ei ddiswyddo gan y Pwyllgor Arbennig yn cael yr hawl i gyflwyno achos ger bron y pwyllgor, gan gynnwys cyflwyniadau llafar, ac er y dibenion hyn fe allai ef neu hi ddod â chyfaill i'w canlyn.

7) Bydd y Pwyllgor Arbennig yn paratoi adroddiad ysgrifenedig i'w ystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr, ac anfonir copi ohono i'r person dan sylw. Bydd yr adroddiad yn nodi'r ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r achos, ac unrhyw ystyriaethau y cred y pwyllgor a ddylai gael eu hystyried yn ystyriaeth Bwrdd y Llywodraethwyr o'r mater. Ni ddylai'r adroddiad gynnwys argymhellion ynghylch y penderfyniad a wneir gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

8) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Arbennig a gweithredu mewn modd y mae'n ei ystyried yn briodol, a allai gynnwys diswyddo'r person dan sylw. Bydd gan y person dan sylw yr hawl i gyflwyno achos ger bron Bwrdd y Llywodraethwyr gan gynnwys cyflwyniadau llafar, ac er y dibenion hyn fe alla ef neu hi ddod â ffrind yn gwmni iddynt.

9) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud rheolau yn nodi trefnau ar gyfer ymddygiad y Pwyllgor Arbennig ac agweddau eraill ar y drefn a nodir yn erthyglau 18(5) i 18(9).

10) Bydd y Pwyllgor Arbennig yn cynnwys tri aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr. Ni fydd Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, yr Is-Gadeirydd a'r Is-Ganghellor yn gymwys i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Arbennig.

**Aelodau Eraill o Staff**

11) Gall yr Is-Ganghellor ddiswyddo unrhyw aelod o staff ac eithrio deiliad swydd uwch ac mewn amgylchiadau sy'n ei alluogi i wneud hynny oherwydd ymddygiad yr aelod o staff dan sylw, gellir eu diswyddo ar unwaith heb unrhyw angen am rybudd o flaen llaw.

12) Ble mae'r Is-Ganghellor yn bwriadu diswyddo aelod o staff o'r fath ac nid yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yn erthygl 18(11) yn bodoli, bydd ef neu hi yn hysbysu'r aelod o staff dan sylw o'r bwriad hwnnw. Bydd yr aelod o staff yn cael cyfle i gyflwyno achos ger bron yr Is-Ganghellor (gan gynnwys achos llafar, ble gallai'r aelod o staff ddod â chyfaill i'w ganlyn) cyn i unrhyw benderfyniad i ddiswyddo'r aelod o staff gael ei wneud gan yr Is-Ganghellor.

13) Ble mae aelod o staff wedi cael ei ddiswyddo yn unol ag erthygl 18(11) neu benderfyniad i ddiswyddo wedi cael ei wneud yn unol ag erthygl 18(12), fe allai'r aelod yna o staff apelio yn erbyn y diswyddiad neu'r penderfyniad, os mai dyna'r achos, i Fwrdd y Llywodraethwyr. Ble bydd aches o apêl yn erbyn penderfyniad i ddiswyddo, ni fydd y diswyddiad mewn grym nes y penderfynir ar yr apêl.

14) Bydd trefnau ar gyfer diswyddo staff gan yr Is-Ganghellor ac ar gyfer ystyriad apeliadau yn erbyn diswyddiadau yn cael eu manylu mewn rheolau a wnaed gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar ôl ymgynghori gyda'r staff. Dylai'r rheolau gynnwys hawliau cyflwyno achos.

15) Yn amodol ar gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Is-Ganghellor o dan yr Erthyglau hyn, fe allai'r Is-Ganghellor ddirprwyo pob neu unrhyw rym gwahardd a diswyddo a roddwyd iddo ef neu hi gan erthygl 18 i aelod arall o staff.

## 19. TREFNAU CWYNO

1) Ar ôl ymgynghori gyda'r staff, bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud rheolau yn manylu trefnau yn unol â'r hyn y gall staff geisio iawn ynghylch unrhyw gwyn yn ymwneud â'u cyflogaeth.

## 20. MYFYRWYR

1) Bydd undeb myfyrwyr yn rhedeg a rheoli ei fusnes ei hun a chyllidau yn unol â chyfansoddiad a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr ac yn cyflwyno cyfrifon wedi'u harchwilio yn flynyddol i Fwrdd y Llywodraethwyr. Ni fydd unrhyw ddiwyg neu ddiddymiad o'r cyfansoddiad hwnnw, yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd, yn ddilys os na fydd neu nes iddo gael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

2) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr, ar ôl ymgynhgori gyda'r Bwrdd Academaidd a chynrychiolwyr y myfyrwyr, yn gwneud rheolau o ran ymddygiad myfyrwyr, gan gynnwys trefnau ar gyfer gwahardd a diarddel ar sail ddisgyblaethol.

3) Wrth weithredu eu cyfrifoldebau o dan erthygl 3, bydd y Bwrdd Academaidd, ar ôl ymgynghori â Bwrdd y Llywodraethwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr, yn penderfynu ar drefnau ar gyfer gwahardd neu ddiarddel myfyrwyr am safon anfoddhaol o waith neu resymau academaidd eraill.

4) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud trefniadau i sicrhau fod myfyrwyr yn cael y cyfle mwyaf cyflawn i godi materion o bryder go iawn iddynt ar bob lefel yn y Brifysgol fel y gallai fod yn briodol. Bydd y trefniadau yn cynnwys trefnau sy'n caniatáu pryderon unigol a thorfol gael eu hystyried yn iawn, ar lefelau priodol o fewn y Brifysgol .

## 21. MATERION ARIANNOL

**Ffioedd**

1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn penderfynu ar ffioedd hyfforddi ac eraill sy'n daladwy i'r Gorfforaeth (yn amodol ar unrhyw delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â grantiau, benthyciadau, neu daliadau eraill a delir neu a wneir gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch priodol).

**Cyfrifon ac Amcangyfrifon**

2) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cadw cyfrifon a chofnodion cywir, a phenodi archwilwyr yn unol â darpariaeth y Ddeddf.

3) Bydd amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant yn cael eu paratoi gan yr Is-Ganghellor ar gyfer eu hystyried a'u cymeradwo gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

**22. RHEOLAU AC IS-DDEDDFAU**

1) Bydd gan Fwrdd y Llywodraethwyr rym i wneud rheolau ac is -ddeddfau yn ymwneud â materion o'r fath parthed llywodraeth ac ymddygiad y Brifysgol fel y gwêl yn dda. Bydd rheolau ac is-ddeddfau o'r fath yn amodol ar amodau yr Erthyglau hyn.

**23. COPÏAU O ERTHYGLAU, RHEOLAU AC IS-DDEDDFAU**

1) Bydd copi o'r Erthyglau hyn, ac unrhyw reolau neu is-ddeddfau, yn cael eu rhoi i bob llywodraethwr ac ar gael i'w harchwilio ar gais i bob aelod o stadd a phob myfyriwr.

**24. DIWYGIADAU O ERTHYGLAU**

1) Fe all yr Erthyglau hyn gael eu diwygio neu eu newid gan benderfyniad y Gorfforaeth naill ai gyda chymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor neu ar gais y Cyfrin Gyngor, ar ôl ymgynghori gyda'r gorfforaeth, yn unol ag adran 125 o'r Ddeddf.

**25. DYDDIAD YR ERTHYGLAU**

1) Bydd yr Erthyglau hyn yn dod i rym ar 9$^{fed}$ Chwefror 2023.